

## Cynghorion Defnyddiol ar gyfer cyflwyno hawliau plant - y Cyfnod Sylfaen

- 1. Gwnewch fwrdd arddangos sy'n cysylltu CCUHP â'r pethau sydd eu hangen ar blant er mwyn bod yn hapus, yn iach ac yn ddiogel**
- 2. Cysylltwch rannau o'r ystafell ddosbarth â hawliau gwahanol. Rhai enghreifftiau: Erthygl 31 (yr hawl i ymlacio a chwarae) yn y man chwarae neu yn y man tawel, Erthygl 24 (yr hawl i gael bwyd iach a dŵr) wrth ymyl y man byrbrydau neu'r man yfed dŵr**
- 3. Ewch ati i greu "Masgot Hawliau" gyda'r plant yn eich ysgol. Gallwch ddefnyddio'r masgot o gwmpas yr ysgol gan greu cysylltiad gweledol â hawliau.**
- 4. Fel rhan o waith cartref/ysgol gallwch greu/brynu masgot rhithwir, e.e. Hywel y Ddraig Hawliau, fydd yn gallu mynd adref gyda'r disgyblion i weld eu hawliau ar waith - gallwch ofyn i ddisgyblion/ofalwyr nodi mewn llyfr sut mae'r masgot wedi mwynhau profi hawliau neu drydar llun a chynnwys yr ysgol yn y trydariad**
- 5. Cysylltwch hawliau plant â thrafodaethau amser cylch**
- 6. Defnyddiwch ein rhestr o eitemau cyfeirio fel testun siarad gyda'r plant. Anfonwch yr eitemau o law i law o gwmpas y cylch a gofynnwch i'r plant ystyried pam mae angen y pethau hyn arnyn nhw er mwyn tyfu i fyny'n hapus, yn iach ac yn ddiogel. Er enghraifft, pwy sy'n defnyddio stethosgop? Pam mae gweld meddyg yn bwysig?**
- 7. Defnyddiwch ein pecyn lluniau fel testun siarad gyda'r plant. Gofynnwch iddyn nhw ddisgrifio'r lluniau neu chwilio am nodweddion tebyg yn y lluniau**
- 8. Cysylltwch hawliau plant i'r straeon rydych chi'n eu darllen fel dosbarth e.e. mae gan y Lindysyn Llwglyd lawn hawl i fwyd iach!**
- 9. Dysgwch y gân hawliau plant a chanwch hi yn eich ysgol**
- 10. Gwahoddwch rhieni i wasanaeth arbennig i glywed y plant yn canu'r gân hawliau plant, ac i drafod hawliau plant.**

